# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 6 Chwefror 2014** |
| Amser: | **08:50 - 12:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_06_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio**<br>**Ceri Breeze, Pennaeth Y Gyfarwyddiaeth Dai, Llywodraeth Cymru**<br>**Kath Palmer, Llywodraeth Cymru**<br>**Geoff Marlow, Llywodraeth Cymru**<br>**Jen Welsby, Llywodraeth Cymru**<br>**John Davies, Legal Services, Welsh Government**<br>**Chrishan Kamalan, Llywodraeth Cymru**<br>**Margaret Frith, Llywodraeth Cymru**<br>**Patricia Gavigan, Llywodraeth Cymru**<br>**Piers Bisson, Public Service Reform Division**<br>**Robin Jones, Llywodraeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhodri Glyn Thomas, Jocelyn Davies a Janet Finch-Saunders.

## 2 Y Bil Tai (Cymru): Cyfnod 1 Sesiwn 10 – Gweinidog Tai ac Adfywio

2.1 Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu gwybodaeth am a ellid cynnwys darpariaethau yn y Bil i ganiatáu awdurdodau lleol a/ neu adrannau perthnasol i rannu data er mwyn eu helpu i ganfod landlordiaid yn y sector rhentu preifat, a helpu i ddod o hyd i achosion o dwyll budd-dal tai;
- nodi pa gamau pellach y gellid eu cymryd i wella safonau diogelwch o fewn y sector rhentu preifat, yn enwedig diogelwch trydan a nwy, gan dderbyn cyfyngiadau'r Cynulliad o ran cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn y tymor hwy;
- nodi'r gofynion presennol o ran y cymorth sydd ar gael i garcharorion cyn eu rhyddhau o'r carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion tai, ac i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu bodloni;
- nodi, mewn perthynas â'r uchod, unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd gan y gweithgor ar adsefydlu carcharorion mewn llety a sut y bydd y Bil yn cyfrannu tuag at gyflawni hyn; a
- darparu manylion am y polisi rhent tai cymdeithasol newydd, sut y mae'n cysylltu â system Cymhorthdal y Cyfrif Budd-dal Tai presennol, a fydd canllawiau ar bennu rhent yn statudol a sut y byddant yn cael eu gorfodi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 4 Trafod tystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio am y Bil Tai (Cymru)

4.1 Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio am y Bil.

## 5 Gwybodaeth dechnegol: Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) (Cymru) Drafft

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn briffio technegol ar y Bil drafft.

## 6 Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon: trafod yr adroddiad

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

## 7 Trafod y broses o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y broses o benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 8 Trafod llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar yr ymchwiliad i rwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar yr ymchwiliad i rwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru.

## 9 Papurau i'w nodi

9.1 Papurau i'w nodi.